

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Gorffennaf 2023

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, P Bright, B Davies, P Drewett, D Jenkins, M Al-Nuaimi and D Mayer

Samantha Schanzer (Cyngorydd Craffu), Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services), Mary Ryan (Head of Adults Services), Caroline Ryan-Phillips (Head of Prevention and Inclusion) and Rhianydd Williams (Service Manager - Integrated Family Support)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr C Townsend and R Howells

1 Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd R Howells a C Townsend

2 Datganiadau o ddiddordeb

Datganodd y Cyngorydd W Routley fuddiant fel Cadeirydd Elusen David Bomber Pierce.

3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **11 Gorffennaf 2023 yn gofnod gwir a chywir.**

4 Adroddiadau Diwedd Blwyddyn - 22/23

Gwahoddedigion:

Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol)

Mary Ryan - Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Caroline Ryan-Phillips - Pennaeth Atal a Chynhwysiant

Rhianydd Williams – Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Cymorth Integredig i Deuluoedd

Atodiad 1 – Gwasanaethau Plant

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad.

Cwestiynau:

Nododd y Pwyllgor fod agenda Dileu yn gwaethygu'r sefyllfa o ran lleoliadau ac amlygwyd hyn drwy adroddiad y Gwasanaethau Plant. Er bod tîm rhanbarthol yn cael ei ddatblygu, roedd y Pwyllgor yn teimlo bod agenda Dileu yn cael effaith negyddol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach am hyn.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod agenda Dileu yn sbardun polisi cryf a bod y tîm rhanbarthol yn ei le. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod Casnewydd yn rheoli'r tîm, gan sicrhau bod y 5 Awdurdod Lleol yn ardal Gwent yn barod ar gyfer agenda Dileu ac yn adeiladu ein gallu i faethu.
- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod hwn yn amgylchedd heriol o ran lleoliadau a'n bod bob amser yn chwilio am ofalwyr maeth. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol.
- Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol fod Casnewydd yn un o'r unig awdurdodau lleol yng Nghymru a oedd wedi gwneud cais am gyllid grant ac wedi ei dderbyn, a oedd yn caniatáu arloesi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau.

Amlygodd y Pwyllgor fod yr adran oedd yn nodi canlyniad y pandemig yn parhau i ddod i'r amlwg gyda chymhlethdod atgyfeiriadau ond mae hefyd yn datgan bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau'n sefydlog, sydd yn gwrthdweud hyn. Holodd y Pwyllgor a ymdriniwyd â'r cynnydd hwn mewn ffordd wahanol.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod llawer o waith wedi'i wneud gyda data ar atgyfeiriadau yn dod i mewn yn erbyn faint a droswyd yn waith parhaus gyda theuluoedd felly roedd yn ymddangos bod anghysondeb. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn aros yr un fath yn ogystal â nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond nid oedd hyn yn adlewyrchiad llwyr o'r hyn sy'n cael ei wneud gan fod y niferoedd hyn newid gyda phlant yn symud ar y gofrestr ac oddi arni. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y ffigurau hyn yn cydnabod ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud mewn gwasanaethau, ond nid yw hon yn sefyllfa hawdd i'w chynnal ac mae'n cael effaith ar staff.
- Nododd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol fod plant wedi cael eu haddysgu gartref yn ystod y pandemig, felly aeth y ffigurau hyn i fyny pan ailagorodd ysgolion ac roedd mwy o gyswllt, a arweiniodd at fwy o atgyfeiriadau.

Nododd y Pwyllgor, er ei fod yn drist bod yn rhaid ariannu Plant sy'n Ceisio Lloches, roedd y Pwyllgor eisiau canmol y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith caled parhaus yn y maes hwn.

Nododd y Pwyllgor fod 40% o staff wedi cael mynediad at hyfforddiant a gofynnwyd a oes problem neu a oedd hyn oherwydd amseriad y gweithredu.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn fater o amseru o fewn y gweithredu, ac nid oedd hwn yn faes sy'n peri pryder.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y Tîm Ymateb Cyflym.

- Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol i ddarparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y camau Ymateb Cyflym lle'r oedd dyddiad cwblhau Mehefin 2023 a oedd wedi mynd heibio ac wedi ei nodi fel 0% wedi'i gwblhau.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor mai'r camau gweithredu oedd sefydlu'r trefniant, a dywedodd fod arian grant wedi'i dderbyn i alluogi hyn. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'r cyflwyniad hwn o ddata yn cael ei ystyried gan fod angen bod yn glir ynghylch yr anghysondeb hwn wrth adrodd.

Nododd y Pwyllgor y gwahaniaeth mewn canrannau a oedd i gyd wedi'u marcio'n wyrdd a gofynnodd am esboniad o hyn.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y rhain yn ddarnau gwaith parhaus gan fod y prosiectau'n anghyflawn ac amlygodd eu bod wedi'u marcio'n wyrdd gan fod y cynnydd yn unol â'r targed.
- Teimlai'r Pwyllgor na ddylai lliw gweithred fod yn wyrdd os nad oedd wedi ei gwblhau.

Gofynnodd y Pwyllgor pa gynnydd oedd ar y Llwybr Llety Plant a Phobl Ifanc.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod cynnydd cryf yn y maes hwn o ran dod â'r partïon perthnasol at ei gilydd gan nad oedd llety'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig, ond ei fod yn ymwneud â gweithio gyda gwasanaethau Tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cyflogaeth ac ati. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn gweithio'n adeiladol ond nododd heriau tai enfawr i'w hystyried yn y dyfodol. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol fod gweithio mewn grŵp yn dwyn ynghyd amrywiaeth o gryfderau a chanolbwyntiwyd ar ganlyniadau i bobl ifanc.

Holodd y Pwyllgor am ddatblygiad Lleoliadau Maethu Arbenigol a gofynnodd am ddiweddariad.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r Pwyllgor yn derbyn mwy o wybodaeth am hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar y cynnig gweithdroad a gofynnodd a oedd yn cael yr effaith a ddisgwylir.

- Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn cael yr effaith disgwyliedig.
- Ychwanegodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod hwn yn brosiect newydd ond ei fod yn hyderus y byddai'n cael effaith.

Gofynnodd y Pwyllgor pam y bu naid yn y ffigurau ynghylch Camfanteisio ar Blant.

- Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol y gallai gwasanaethau fod wedi gwella sy'n golygu eu bod yn gallu canfod yn fwy effeithiol, neu efallai fod cynnydd gwirioneddol yn y niferoedd. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol y byddai'n gymhleth gwahanu'r rhain.
- Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wasanaeth adweithiol a'i fod yn anodd brwydro yn erbyn camfanteisio ar blant gan ei fod yn fater cymdeithasol. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Strategol y Pwyllgor y byddai gwaith yn parhau i gael ei wneud gyda Heddlu Gwent a chyda'r holl bartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor pam y caniatawyd goddefgarwch o 15% ar gyfer targedau.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar oddefgarwch gan nad oeddent yn gwbl gyfforddus. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor eu bod yn gobeithio erbyn y flwyddyn nesaf, y byddent mewn sefyllfa well i drafod. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod angen adlewyrchu'r data yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn well.

Atodiad 2 – Gwasanaethau Oedolion

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr adroddiad hwn.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol wydnwch y staff a'u gwaith parhaus i drawsnewid gwasanaethau i sicrhau cynaliadwyedd.

Cwestiynau:

Canmolodd y Pwyllgor waith y staff a nodwyd y gydnabyddiaeth genedlaethol.

- Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod Caffi Clonc wedi ail-lansio yn 2022 a nododd bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â meysydd gwasanaeth eraill yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau'r ddarpariaeth orau o wasanaethau.

Gofynnodd y Pwyllgor pa gynnydd a wnaed ar gyfer y gwasanaethau ailalluogi ar gyfer y rhai â dementia.

- Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod gwelyau Camu i Fyny, Camu i Lawr ar gyfer y rhai â dementia mewn ysbytai yn unig a'u bod yn edrych ar yr angen i

ehangu. Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y prosiect dementia wedi'i seilio ar un o Abertawe a'i nod oedd bod yn addysgiadol, ac i fod yn lle i bobl â diagnosis cynnar gael cymorth a chefnogaeth.

Nododd y Pwyllgor y Llety Anabledd Dysgu a chanmolodd y gwaith. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r gwaith hwn.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod trefniadau pontio yn eu lle o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion a bod y rhain yn tueddu i ddod drwodd yn 18 oed. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y rhain yn tueddu i fod yn 3-5 o bobl ond eu bod wedi cael 25 o bobl eleni. Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn teimlo ei fod yn bwysig cael cynnig da o wasanaethau a chynnwys nid yn unig defnyddwyr gwasanaeth, ond eu teuluoedd yn y camau nesaf i gael y canlyniadau gorau.
- Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion eu bod wedi gweithio gyda Pobl ac amgylcheddau byw â chymorth eraill ar nifer o brosiectau sydd wedi gweithio'n dda. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ei bod yn bwysig datblygu'r perthnasoedd hyn er mwyn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i'r rhai dan sylw.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd technoleg arloesol, technoleg gynorthwyol a thechnoleg tŷ clyfar.

- Cynigiodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion arddangos rhai eitemau a ddefnyddiwyd. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion enghreifftiau gan gynnwys unedau cyfrifiadurol ar y teledu sy'n gallu derbyn ac anfon galwadau fideo, technoleg i agor bleindiau, systemau mynediad drws ac anifeiliaid anwes a babanod animatronig i gysuro pobl â dementia.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am hyn ac arddangosiad.

Teimlai'r Pwyllgor y gallai'r dechnoleg gynorthwyol hon fod o fudd i breswylwyr ag agoraffobia a gofynnodd pa allgymorth a wnaed yn y maes hwn.

- Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai dim ond am ychydig fisoedd y bu'r rhain ar gael a bod cynlluniau i'w ehangu. Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn teimlo pe bai hwb dementia, y byddai'n lle perffaith ar ei gyfer.
- Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd ar gael i'r rhai nad oeddent yn gallu gadael eu cartrefi.
- Sicrhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y Pwyllgor bod gwaith agos yn cael ei wneud gyda thimau iechyd meddwl a fyddai'n galluogi defnydd arloesol o'r dechnoleg sydd ar gael i'r bobl hyn.
- Anogodd yr Aelod Cabinet yr Aelodau i ymweld â Hwb Dementia Abertawe i weld beth sydd ar gael. Amlygodd yr Aelod Cabinet fod technoleg yn esblygu'n gyflym a byddai'n helpu pobl i fyw bywydau gwell, mwy annibynnol.
- Amlygodd yr Aelod Cabinet yr effaith ar ofalwyr a gofalwyr ifanc gan fod technoleg gynorthwyol yn caniatáu iddynt ymgysylltu ag aelodau o'u teulu a gofalu amdanynt ac yn rhyddhau mwy o amser iddynt eu hunain i helpu i osgoi gorflino.
- Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr effaith a gafodd y pandemig ar allu i ofalu a'r gwahaniaeth nawr pan oedd pobl yn dychwelyd i'r gwaith. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y dechnoleg arloesol hon yn caniatáu i ofalwyr gadw llygad ar deulu tra'n gallu gweithio. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion hefyd y byddai'r dechnoleg hon yn cael effaith ar gyllidebau yn y dyfodol, ond byddai hefyd yn oedi neu'n osgoi gofal llawn, a fyddai'n fuddiol.

Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am yr achrediad sy'n Cefnogi Gofalwyr.

- Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod hynny'n dod o fewn y gwasanaeth Atal a Chynhwysiant ond fe'i cychwynwyd gan y Gwasanaethau Oedolion.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y Pwyllgor ei fod yn edrych ar y cynnig i staff gofalu. Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod cais am gyllid grant wedi cael ei wneud i lenwi swydd yn gweithio tuag at yr achrediad hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yn rhaid i staff gael gwiriadau GDG dilys a chyfredol a hyfforddiant cyn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth.

- Sicrhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y Pwyllgor fod hyn yn wir a bod proses gynefino i sicrhau bod popeth yn cael ei wneud a'i ddiweddarau. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod hyn yn gamgymeriad yn y ffordd y cafodd ei gofnodi gan mai dyna'r ffordd y cafodd data ei gymryd.

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion eisiau diweddarau'r Pwyllgor ar y cam o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i Drefniadau Amddiffyn Rhyddid. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod hyn bellach wedi'i ohirio oherwydd heriau codau ymarfer ac nad oedd dyddiad terfynol ar hyn o bryd. Awgrymodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion anfon diweddariad i'r holl Aelodau ar hyn a chytunodd y Pwyllgor.

3. Atodiad 3 – Gwasanaethau Atal a Chynhwysiant

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Les Cymunedol yr adroddiad.

Rhoddodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant grynodedb o'r adroddiad.

Cwestiynau:

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad rhwng Amcanion 1 a 2.

- Eglurodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod Amcan 1 yn canolbwyntio ar weithio gydag unigolion yn eu cymuned eu hunain gyda chefnogaeth lle a chymuned i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i aros yn eu cymunedau eu hunain. Esboniodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod Amcan 2 yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gydag ystod o'r hyn y gallai hyn ei olygu. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai'r gwahaniaeth allweddol rhwng y ddau yn gyntaf oedd cefnogi'r rhai yn eu cymunedau, tra bod yr ail yn tynnu sylw at ddiwallu anghenion.
- Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant y gellid drysu rhwng y ddau gan fod y ddau yn ymwneud ag atal a darparu gwasanaethau.

Canmolodd y Pwyllgor y tîm am eu cyflawniadau a gofynnodd a oedd y sgôr ar dechnolegau rhyngweithiol yn cael ei chyflwyno'n annheg gan fod yr un cam gweithredu yn adroddiad y Gwasanaethau Oedolion wedi'i nodi i fod yn fwy cyflawn.

- Cytunodd yr Aelod Cabinet.
- Eglurodd Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd fod Gwasanaethau Oedolion yn arwain tra bod Atal a Chynhwysiant yn cynorthwyo.
- Gofynnodd y Pwyllgor a ellid edrych ar hyn i gyflwyno'r cam gweithredu mewn ffordd decach.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod hyn yn dangos y berthynas rhwng meysydd gwasanaeth a nododd fod angen iddynt weithio'n fwy effeithlon ar gyfer yr adolygiadau hyn er mwyn dangos y berthynas honno.

Gofynnodd y Pwyllgor pa heriau oedd yn atal ehangu'r gwasanaeth Chwaraeon a Chwarae.

- Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai'r ffordd draddodiadol o ddarparu'r gwasanaethau hyn oedd drwy glybiau gwyliau. Hysbysodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant y Pwyllgor bod adolygiad wedi'i wneud i ddeall y materion ac o ganlyniad roedd y cwmpas wedi'i ehangu. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai'r prif faterion oedd materion gweithlu a chapasiti gan fod yn rhaid iddynt weithio o fewn rheoliadau AGC ynghylch cymhareb staff i blant.
- Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor eu bod wedi ystyried ailfodelu darpariaeth gwasanaeth er mwyn gallu darparu mwy gyda'r adnoddau sydd ganddynt ar hyn o bryd wrth weithio tuag at weithlu cynaliadwy a chyflwynir hyn i'r Aelod Cabinet i'w drafod.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am Glybiau Ieuentid i'r dyfodol.

- Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor eu bod wedi cael eu hadolygu i edrych ar newid y ddarpariaeth gan eu bod yn ddaearyddol iawn yn draddodiadol. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai nod y gwasanaeth oedd sicrhau eu bod yn cyrraedd y ddinas gyfan.
- Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod llawer o waith yn mynd i mewn i adolygu a recriwtio, yn ogystal ag ymuno â phrosiectau eraill. Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor eu bod yn ailfodelu'r nifer o feysydd a'u bod am fod yn arloesol. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant eu bod eisiau cysylltu â gweithgareddau chwaraeon a'r tîm allgymorth. Roedd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant yn cydnabod ei fod yn gynllun uchelgeisiol ond ei fod yn dal i gael ei ddatblygu a bod y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn ehangu ac yn tyfu.

Gofynnodd y Pwyllgor pa fath o ddatblygiad yr hoffent yn y dyfodol ar gyfer Clybiau Ieuentid.

- Tynnodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant sylw at symud i ffwrdd o glybiau ieuentid traddodiadol, a chydabu fod ganddynt rôl ond bod llawer o blant yn methu neu ddim yn defnyddio'r rhain. Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod yn rhaid iddynt feddwl yn arloesol ynghylch sut i ennyn diddordeb plant mewn cymunedau a bod yn rhaid iddo gael ei arwain gan yr hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth ei eisiau.
- Amlygodd y Rheolwr Gwasanaeth bwysigrwydd perthnasoedd partneriaeth yn y maes hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor pa ardaloedd yr oedd y clybiau ieuentid presennol ynddynt.

- Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod llawer o waith yn mynd rhagddo mewn clybiau ieuentid a bod gwaith yn mynd rhagddo i gyd-fynd â phrosiectau eraill. Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant bwysigrwydd clybiau ieuentid i gael profiad i ddefnyddwyr gwasanaeth, er mwyn atal troseddu ac ati. Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai eu dyhead oedd cael darpariaeth ledled y ddinas a chytunodd i ddarparu gwybodaeth y tu allan i'r cyfarfod ar yr hyn oedd ar gael ledled y ddinas.

Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd cam gweithredu 2 ar dudalen 70 yn cael ei fonitro gan ei fod ond ar 17%.

- Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod y ganran hon yn gamgymeriad y mae angen ei gywiro gan ei fod bellach wedi'i gwblhau ac mae cam gweithredu newydd wedi codi.
- Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant eu bod yn ymwneud â gweithdai gyda gweithiwr proffesiynol a'u bod yn ailgomisiynu ar gyfer arbenigwr.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar beth oedd Addasiadau Carbon i'r Cartref.

- Hysbysodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant y Pwyllgor ei fod yn cefnogi'r Cynllun Lleihau Carbon a bod trafodaethau gyda'r tîm Addasiadau a'u bod yn edrych ar fentrau a gyda phwy yr oeddent yn gweithio. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod y cam gweithredu hwn wedi'i nodi'n gyflawn gan eu bod am i'r timau feddwl yn wahanol am y ffordd y maent yn cefnogi'r cynllun hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor sut dderbyniad yr oedd uno'r Tîm Atal a Cymunedau Cryf wedi ei gael.

- Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai ychydig iawn o effaith yr oedd wedi ei gael ar y timau a'u bod wedi setlo. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant mai gwir effaith yr uno hwn oedd gweld mwy o deuluoedd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad pellach ar hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am ehangu ar y mentrau Nodi'r Sbardunau a Modelau Rhianta.

- Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod y prosiect Nodi'r Sbardunau wedi bod yn beilot ers 3 blynedd a dyfeisiwyd adroddiad fel model oedd yn ymateb i faterion lleol i adrodd i SCHTh i edrych ar ffactorau y tu ôl i waharddiadau ac ymatebion gwasanaeth. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod yr adroddiad hwn wedi nodi rhai ffactorau allweddol. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod y model yn ymwneud â nodi plant yn gynt i feithrin perthynas â nhw a'u cefnogi trwy flynyddoedd pontio yn yr ysgol. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant bwysigrwydd symud i ffwrdd o waharddiadau a symud tuag at gynllun cofleidiol. Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod y peilot yn ysgol Llan-wern wedi bod yn gadarn ac wedi gweld rhai canlyniadau pwerus i blant. Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant hefyd nad oedd yn ymwneud ag adnoddau nac angen mwy o gyllid, ond am edrych ar ba adnodd sydd ar gael a sut mae'n cael ei ddefnyddio. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant eu bod yn aros am adroddiadau gwerthuso fel y gellid ailedrych ar hyn a'i ail-lansio ar draws Casnewydd.
- Amlygodd y Rheolwr Gwasanaeth fod grwpiau rhianta yn cael eu darparu gan y tîm a bod ganddynt amrywiaeth o'r hyn sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a phwysleisiodd y gallai ysgolion cynradd fod o fudd wrth adnabod plant. Amlygodd y Pwyllgor fod yn rhaid cael cydbwysedd rhwng diogelwch plant eraill a staff mewn ysgolion ac anghenion y plentyn, ond y gellid sicrhau'r cydbwysedd hwn gyda pherthnasoedd gwaith da a phartneriaethau.
- Amlygodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod gwaith wedi'i wneud gyda Heddlu Gwent, lle caiff ysgolion wybod os caiff unrhyw ddigwyddiadau eu hadrodd o'r cartref, fel y gallant newid eu dull o ymdrin â'r plentyn.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y mesur perfformiad ar dudalen 77 a gofynnodd a oeddent yn edrych ar ddatblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg i helpu i wella datblygiad y maes hwn. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a fyddai gwelliant ymhen chwe mis.

- Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth yr Aelodau bod hyn y tu hwnt i gylch gorchwyl y gwasanaeth a bod y mesur hwn yn ymwneud â'r rhaglen Dechrau'n Deg, nad yw ar waith eto gyda darpariaeth Gymraeg. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant y byddent yn tyfu ac yn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn gallu cynnig lleoliadau.
- Cytunodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant gyda'r Pwyllgor y byddai mwy o ddata ar gael yn y dyfodol gan ei fod yn dal yn gynnar.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar yr hyn yr oedd "QOL" yn cyfeirio ato yn ymwneud â defnyddwyr sylweddau.

- Hysbysodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant y pwyllgor ei fod yn golygu ansawdd bywyd a bod y system fesur ar gyfer hyn ac effaith y prosiectau yn gymhleth iawn a bod angen ei dorri i lawr ymhellach yn yr adroddiad. Nododd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod adolygiadau'n cael eu cynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth i weld pa newidiadau sydd wedi digwydd yn eu bywydau. Amlygodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fod gwaith yn cael ei wneud i symleiddio ac egluro hyn.

Roedd y Pwyllgor am dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer cynllunio olyniaeth ac uwchsgilio staff a phwysigrwydd hyn i gynaliadwyedd o fewn y gwasanaeth.

5 Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau

Roedd y Pwyllgor yn fodlon gydag adroddiadau ac eisiau nodi eu diolch i'r holl staff am eu gwaith caled parhaus.

Argymhellodd y Pwyllgor er mwyn cyflwyno gwybodaeth decach a mwy cywir, y dylid newid data Gweithredu ynghylch Atal a Chynnwys ar gyfer technoleg gynorthwyol (Amcan 1 Cyfeirnod 1) i adlewyrchu eu gwaith cydweithredol â gwasanaethau eraill, sy'n dangos canran cwblhau uwch Cam Gweithredu tebyg o fewn Adroddiad y Gwasanaethau Oedolion (Amcan 1 Cam Gweithredu 4).

Argymhellodd y Pwyllgor gyfathrebu gyda phob Aelod ynghylch sefyllfa bresennol Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) a Threfniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS).

Croesawodd y Pwyllgor a derbyn awgrym y Swyddogion o sesiwn sefydlu ar gyfer Aelodau ar y dechnoleg gynorthwyol sydd ar gael a gofynnodd am drefnu ymweliad safle â Marchnad Casnewydd.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ysgrifenedig ynghylch statws a gwaith y Tîm Ymateb Cyflym ac ar Leoliadau Maethu Arbenigol.

Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad gwybodaeth ynghylch Camfanteisio ar Blant.

Gofynnodd y Pwyllgor am rannu mwy o wybodaeth am ddarpariaeth ieuencid gyda'r Pwyllgor i ddangos pa wasanaethau sydd ar gael ym mhob ward.

Gofynnodd y Pwyllgor i rannu gwybodaeth am y twrnaint sydd i ddod gyda'r holl Aelodau cyn gynted â phosibl.

Gofynnodd y Pwyllgor am rannu data pellach gyda'r Pwyllgor i ddangos yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth o uno'r timau Atal a Chymunedau Cryf.

6 Adroddiad Cyngorydd Craffu

1.

Camau Gweithredu sy'n Codi (Atodiad 1)

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd unrhyw gamau gweithredu i adrodd arnynt.

Diweddariad ar y Flaenraglen Waith (Atodiad 2)

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd unrhyw newidiadau i'r Flaenraglen Waith. Nodwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw 27 Medi 2023.

7 Digwyddiad Byw

[Cliciwch yma i wylio'r recordiad.](#)

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified